

# Gyrfaoedd gwobrwyol yn helpu plant i chwarae, dysgu a thyfu



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc  
Young Wales


[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)



Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd  
Family Information Services

# Gallwch fynd ymhell yn helpu plant i chwarae, dysgu a thyfu

Heddiw  
rydym yn  
hedfan o  
amgylch  
y byd



## Sector sy'n tyfu ac sy'n cynnig cyfleoedd i bawb

Ydych chi wedi bod yn ystyried cael swydd lle byddwch yn helpu plant i ddysgu? Os felly gobeithio y bydd y llyfryn yma'n ddefnyddiol iawn. Cafodd ei gynhyrchu i esbonio i chi sut y gallwch ddisgwyl cael eich herio a'ch gwobrwyo wrth weithio gyda phlant ifainc.

Rydym yn sôn am yr holl opsiynau gyrfaol sydd ar gael i chi, yn rhoi cyngor i chi am y cymwysterau y byddwch eu hangen ac yn esbonio pa hyfforddiant sydd ar gael i'ch helpu i fynd yn bellach yn eich gyrfa newydd.

Ond yn fwyaf pwysig, bydd y llyfryn yma'n eich helpu i benderfynu a fydd swydd yn gweithio gyda phlant bach yn gweddu i chi fel person. Wedi'r cwbl, bydd disgwyl i chi chwarae rôl bwysig ym mywydau'r plant sydd dan eich gofal, a helpu i osod sylfaen gadarn ar gyfer datblygiad pob un o'r plant y gofalwch amdanant yn ystod y blynyddoedd hanfodol cynnar yma.

Mae angen rhywun arbennig iawn sydd â'r sgiliau a'r medrau i gyflawni'r cyfrifoldebau yma. Os gallwch chi wneud hynny, mae'r cyfleoedd yno i chi gymryd mantais ohonynt.



i ble'r aiff  
eich swydd  
â chi?

# Ydych chi wrth eich bodd yn helpu plant i ddod i nabod ein byd?

Heddiw rydym yn mynd i'r ardd jyngl



## Mae gyrfya bleserus a hynod wobrwyol yn aros amdanoch

Ydych chi'n dda gyda phlant? Ydyn nhw'n ymlacio yn eich cwmni? Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd cipio eu dychymyg gyda gweithgareddau a chwarae rôl?

Os ydych, efallai mai dyma eich llwybr mewn bywyd. Beth allai fod yn fwy gwobrwyol na threulio eich amser gwaith yng nghwmni plant ifainc, yn eu helpu i ddysgu amdanynt eu hunain a'r byd o'u cwmpas?

Onid byddwch yn gwerthfawrogi mwy am y swydd na dim ond y boddhad mawr a gewch. Bydd y sialensiau o bob math a wynebwb bob dydd yn helpu i wneud hon yn yrfa amrywiol a diddorol.

Gadewch i ni fod yn realistig. Mae gweithio gyda phlant yn gallu gofyn am lawer o ymdrech – gofynnwch i unrhyw riant neu ofalwr – ac weithiau bydd angen i chi drin sefyllfaoedd mewn modd proffesiynol a gyda thiriondeb. Bryd hynny bydd eich hyfforddiant a'ch natur ofalgar yn dod i'r amlwg a dyma pryd y bydd eich swydd yn eich gwobrwo go iawn.

## Bydd angen i chi gael gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)

Mae hwn yn fater pwysig arall i'w ystyried. Mae gofalu am blant yn gyfrifoldeb enfawr. Mae rhoi eich plentyn dan ofal rhywun arall yn gofyn bod gennych lawer o ffydd yn y person hwnnw.

Fel cymdeithas, mae angen i ni sicrhau bod rheoliadau tynn a rheolau ansawdd yn eu lle fel bod modd i bob plentyn ddysgu mewn amgylchedd diogel, gofalgwr a diddorol. Am y rheswm hwnnw'n union, mae'r gyfraith yn mynnu bod y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) yn gwneud gwiriad cyn i chi gychwyn yn eich swydd newydd.

Mae'r un rheolau tynn yn bodoli os ydych yn ystyried cychwyn busnes gofal plant newydd. Chewch chi ddim dechrau nes byddwch wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mwy o wybodaeth: Swyddfa Cofnodion Troseddol: 0870 90 90 844 [www.crb.gov.uk](http://www.crb.gov.uk)  
Awdurdod Diogelu Annibynnol: 0300 123 1111 [www.isa-gov.org.uk](http://www.isa-gov.org.uk)



i ble'r aiff  
eich swydd  
â chi?

Mae gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol hefyd gynllun archwilio cefndir a gwahardd, ac mae'n gweithio'n agos gyda'r CRB i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant. Mae unrhyw un sydd ar eu rhestr o bobl a waharddwyd wedi'i atal yn gyfreithiol rhag gweithio ym maes gofal plant.



# Ehangwch eich sgiliau drwy hyfforddi a symudwch yn uwch yn eich swydd

I ffwrdd  
â ni i'r Eidal  
heddiw i  
wneud pïtas

Pa sgiliau fyddwch chi eu hangen i weithio gyda phlant?

Wel, gadewch i ni edrych yn gyntaf ar y sgiliau sydd gennych yn barod. Nid y cymwysterau swyddogol fel TGAU, diplomâu neu raddau, ond y sgiliau sy'n rhan ohonoch chi. Er enghraifft, eich gallu naturiol, eich brwdfrydedd a'ch ynni di-ben-draw, eich gallu i gymryd y cam cyntaf, eich sgiliau cyfathrebu, eich sgiliau creadigol a'ch dychymyg. Bydd y nodweddion yma i gyd yn eich helpu, yn enwedig wrth i chi adeiladu ar eich talentau naturiol gyda hyfforddiant ffurfiol.



## Dewch yn fwy bodlon gyda'ch swydd

Er nad oes raid i chi eu cael ymhob sefyllfa waith, mae cymwysterau cydnabyddedig yn dod â manteision enfawr i chi yn eich gyrfa. Ond peidiwch â digalonni. Mae digon o gyfle i chi ennill y cymwysterau yma.

Pwy bynnag ydych, yn rhywun sydd newydd adael yr ysgol, yn rhywun sydd eisiau newid gyrfa, neu'n rhywun sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl magu plant, mae cyrsiau ar gael sy'n gadael i chi ddysgu ar eich cyflymder eich hun. Gallwch hyfforddi'n rhan amser, yn llawn amser, yn eich swydd neu yn y coleg. Chi piau'r dewis.

Ond mae un peth yn sicr: beth bynnag yw eich bwriad – cael swydd lawn amser, gweithio ychydig oriau'r wythnos yn unig, neu gychwyn eich busnes eich hun, fe ewch ymhellach a mwynhau eich swydd yn fwy os cewch yr hyfforddiant cywir.

I gael rhagor o wybodaeth am eich cyfleoedd hyfforddi, gwelwch ein rhestr o gysylltiadau ar dudalen 18, neu chwiliwch eich 'Dewisiadau Dysgu' drwy fynd i [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com) neu ffonio'r Llinell Cyngor am Ddysgu a Gyrfaoedd ar 0800 100 900.



i ble bydd  
y swydd  
yn eich  
cymryd?

**Cyngor  
Gyrfaoedd**

# Ydych chi yn y sector blynyddoedd cynnar yn barod? Gallwch wella eich sgiliau ac anelu'n uwch yn eich gyrfa

I ffwrdd  
â ni i'r  
lleuad



Ydych chi wedi'ch hyfforddi i Lefel 2 neu 3  
mewn cymhwyster cydnabyddedig?

Rydym yn derbyn nad yw pawb sy'n darllen y llyfryn  
yma'n newydd i'r sector. Yn wir, efallai bod gennych  
swydd wobrwyl iawn yn barod yn helpu plant i  
chwarae, dysgu a thyfu.

Felly a yw'r wybodaeth yma'n berthnasol i chi? Ydy  
wir. Efallai y gwyrddoch am y ddeddfwriaeth newydd  
a gyflwynwyd yn Ebrill 2008, sy'n golygu bod yn rhaid  
i bob aelod uwch o staff a'r rheiny sy'n gyfrifol am  
grŵp o blant gael eu hyfforddi i Lefel 3 neu'n uwch,  
a bod yn rhaid i 50% o'r holl bobl eraill sy'n gweithio  
yn y sector gael cymhwyster Lefel 2? Bydd yn rhaid i  
bobl sy'n newydd i Ofal Plant gwblhau Uned Un –  
Cyflwyniad i Arferion Gofal Plant (wedi'i seilio yn y  
cartref). Yn y pen draw gall hwn arwain at Ddiploma  
Lefel 3 mewn Gofal Plant yn y Cartref.



## Dyfodol disglair i chi a'r plant sydd dan eich gofal

Mae hyn oll yn rhan o ymdrech i adeiladu ar y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn barod gan filoedd o bobl broffesiynol hynod dalentog yng Nghymru bob dydd.

Mae angen i ni godi proffil y sector a denu llif newydd o bobl hynod fedrus ac egniol a fydd yn gwerthfawrogi eu gyrfa fuddiol ac a fydd â'r ymroddiad, yr ynni a'r brwdfrydedd sydd eu hangen i fod yn fodelau rôl positif i'n plant ifainc.

Dyma newyddion da i'r bobl hynny sy'n gweithio gyda phlant yn barod. Wrth i'r sector flodeuo, bydd pob cyfle i chi rannu yn y llwyddiant.

Drwy ganolbwyntio ar eich sgiliau, byddwch yn gallu ennill y cymwysterau newydd sy'n eich helpu i wneud y gorau o'ch arbenigedd a'ch profiad, ac agor drysau newydd.

Mae'n bryd gwneud yn fawr o'ch talentau.



i ble'r aiff  
eich swydd  
â chi?

# Opsiynau hyfforddi

## Sut ydw i'n dysgu?

Os ydych yn benderfynol eich bod wedi canfod yr yrfa sy'n gywir i chi, mae'n bryd canfod y cwrs cywir. Gallwch naill ai gymryd yr opsiwn dysgu seiliedig ar waith, neu gallwch fynd i Goleg AB neu Ganolfan Addysg Oedolion a hyfforddi yn y ffordd honno. Neu gallwch hyfforddi gydag unrhyw rai o'r sefydliadau Gofal Plant Cenedlaethol sydd wedi'u rhestru ar dudalen 18.

### Dysgu Seiliedig ar Waith

Mae prentisiaeth yn rhoi'r cyfle i chi hyfforddi tra byddwch yn y gwaith, sy'n golygu y gallwch gael yr arbenigedd a'r cymwysterau yr ydych eu hangen heb orfod astudio'n llawn amser. Fel Prentis mae'n debyg y bydd eich wythnos waith yn cynnwys lleoliad gwaith am bedwar diwrnod ynghyd â diwrnod yn y coleg neu gyda darparrydd, lle byddwch yn astudio'r theori sy'n benodol berthnasol i'ch swydd chi.

### Colegau AB a Chanolfannau Addysg Oedolion

Mae cyfle i chi astudio ystod o gyrsiau llawn amser a rhan amser hefyd yn eich Coleg AB neu Ganolfan Addysg Oedolion. Dilynwch y llwybr dysgu yma a byddwch hefyd yn cael cyfle i dreulio amser mewn sefyllfa waith go iawn, gan ennill profiad hanfodol. I gael manylion ynglŷn â lle i fynd i gael rhagor o wybodaeth am gyrsiau lleol a chyfleoedd gyrfaol, edrychwch yng nghefn y llyfryn yma.

### Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Gallai eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol hefyd ddarparu ystod o gyrsiau byr i weithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant. I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 0300 123 7777.

### Eich pwyntio yn y cyfeiriad cywir

Unwaith y byddwch wedi penderfynu sut rydych eisiau dysgu, mae'n bryd penderfynu beth rydych angen ei ddysgu, a dyma lle mae'n gallu mynd braidd yn gymylog. Felly, i helpu, rydym wedi darparu arweiniad cyflym ar y dudalen gyferbyn am y cymwysterau y gallech anelu amdanynt, yn dibynnu ar lefel eich profiad.

Mae gwybodaeth fwy penodol am y cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer swyddi arbennig i'w chael o dudalen 12 ymlaen.

Ond peidiwch ag anghofio; mae cyngor arbenigol, cyfeillgar ar gael bob amser i'ch helpu i wneud y dewisiadau cywir. Mae rhestr o gysylltiadau defnyddiol yng nghefn y llyfryn yma.

**Cyngor  
Gyrfaoedd**

# Pa gwrs sy'n gywir i chi?

## Lefel 1 – Lefel Gyflwyniadol

Os nad oes gennych brofiad, neu os yw eich profiad yn fach iawn, dyma'r cwrs i chi. Byddwch yn cael profiad gwaith er mwyn cael profiad ymarferol neu bydd cyfle i chi hyfforddi wrth i chi weithio fel prentis.

## Lefel 2 – Lefel Tystysgrif

Dyma'r cymhwyster y byddwch ei angen os ydych eisiau gweithio dan oruchwyliaeth fel cynorthwydd dosbarth, cynorthwydd meithrinfa, gweithiwr chwarae, cynorthwydd cylch meithrin, cynorthwydd cylch chwarae neu weithiwr chwarae ar ôl ysgol, er enghraifft.

## Lefel 3 – Lefel Diploma

Bydd ennill y cymhwyster yma'n gadael i chi weithio gan ddefnyddio eich synnwyr cyffredin eich hun, gan gynllunio, trefnu a goruchwyllo pobl eraill. Gallech fod yn gynorthwydd dosbarth, ymarferydd meithrinfa neu arweinydd cylch chwarae neu gylch meithrin, er enghraifft.

## Lefel 4 – Lefel Rheoli

Mae hwn i ymarferwyr profiadol sy'n gwneud tasgau rheoli. Cyrhaeddwch y lefel sgil yma i wella eich sgiliau fel rheolwr canolfan integredig, meithrinfa, cylch meithrin neu gylch chwarae.

## Lefel 5 – Gradd Sylfaen a chymwysterau uwch

Dyma'r cymhwyster fydd yn eich helpu i ddysgu'r sgiliau rydych eu hangen i reoli ar lefel strategol. Gallech fod yn rhedeg canolfan plant integredig neu arwain adran chwarae'r awdurdod lleol a rheoli ar lefel strategol.

## Gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg

Os ydych wedi dewis gweithio mewn ysgol cyfrwng Gymraeg, dwyieithog neu gylch meithrin, mae dwy raglen hyfforddi ar gael. Gall Cam wrth Gam eich helpu i ennill cymhwyster hyd at Lefel 3 a gall hefyd eich helpu i ddatblygu eich sgiliau iaith Gymraeg. Gall Geiriau Bach eich helpu i ennill cymhwyster Lefel 4. Bydd colegau AB hefyd weithiau'n cynnig cymwysterau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

I weld rhestr lawn o gymwysterau derbynol ar gyfer y gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, ewch i [www.ccwales.org.uk](http://www.ccwales.org.uk) os gwelwch yn dda.

# Dewisiadau gyrfaol

## 1. Meithrinfeydd dydd

Chwe ffordd y  
gallwch helpu plant  
i chwarae, dysgu  
a thyfu

### Beth yw'r swydd yma?

Mae gweithio mewn meithrinfa'n gallu rhoi llawer o foddhad i chi. Byddwch angen egni di-ben-draw ac empathi go iawn gydag anghenion plant. Os oes gennych y nodweddion hynny, bydd y gwaith yn wobrwyl iawn wrth i chi arwain y plant sydd dan eich gofal drwy un o gamau pwysicaf eu datblygiad.

Byddai eich rôl yn cynnwys helpu i gynllunio a threfnu gweithgareddau dysgu a chwarae a gofalu am anghenion personol plant yn ystod amseroedd bwyta a chyfnodau gorffwys. Wrth i chi fynd yn eich blaen, gallech ddod yn Ymarferwr Meithrinfa sy'n gyfrifol am gynllunio a threfnu gweithgareddau ac, yn y pen draw, symud i swydd reoli, yn goruchwyllo cyllid, cyswllt â rheini a phenodi.

### Pa gyfleoedd sydd ar gael i chi?

Mae pob math o feithrinfeydd dydd i'w cael yng Nghymru. Mae rhai wedi'u rhedeg gan grwpiau gwirfoddol neu gymunedol, rhai gan gyflogwyr ac awdurdodau lleol, tra bo eraill wedi'u rhedeg yn breifat. Mae meithrinfeydd yn tueddu darparu gofal drwy'r dydd ac addysg a chwarae i blant hyd at bum mlwydd oed, o wyth y bore hyd chwech o'r gloch y nos.

Mae gweithio mewn meithrinfa'n rhoi llawer o gyfleoedd i chi – pa un ai ydych yn chwilio am swydd ran amser neu am yrfa amser llawn – a gyda rhagor o brofiad a chymwysterau gallwch symud i swyddi goruchwyllo a rheoli.

### Pa gymwysterau fyddwch chi eu hangen?

Mae'n rhaid i o leiaf 80% o staff nad oes ganddynt rôl arolygu fod â chymhwyster Lefel 2 o leiaf, a dylai hanner y rhain fod â chymhwyster Lefel 3 neu fod yn gweithio tuag ato. I fynd ymlaen i swydd rheolwr, mae'n rhaid i chi gael cymhwyster Lefel 3 ac o leiaf 2 flynedd o brofiad. Efallai bod nifer o feithrinfeydd yn hapus i gymryd Cynorthwywyr Meithrinfa sydd heb gymwysterau, ac yn arbennig o awyddus i ddenu staff hyn sydd â phrofiad o ofalu am eu plant eu hunain. Fodd bynnag, bydd y mwyafrif o gyflogwyr yn disgwyl i chi ymrwmo i hyfforddi ar gyfer cymhwyster Lefel 2, unwaith y byddent yn eich cyflogi.

# 2. Cylchoedd Chwarae a Chylchoedd Meithrin cyn ysgol

## Beth yw'r swydd yma?

Mae sesiynau Cylchoedd Chwarae a Chylchoedd Meithrin yn darparu ar gyfer plant 2-5 oed, am 2-3 awr y dydd fel arfer. Mae Cylchoedd Meithrin yn rhoi cyfle i blant ddysgu a datblygu trwy brofiadau chwarae o ansawdd uchel yn yr iaith Gymraeg. Gall y Cylchoedd Chwarae a Chylchoedd Meithrin gael eu rhedeg yn breifat neu gan bwyllgor o rieni/gofalwyr lleol. Yn aml iawn, maent yn cyfarfod mewn cymunedau, ysgolion neu feithrinfeydd pwrpasol yn lleol.

Maent yn cydnabod bod plant yn dysgu drwy chwarae a chyfranogi'n weithredol, felly eich rôl chi fel Cynorthwydd fydd helpu'r Arweinydd i ddarparu rhaglen amrywiol o weithgareddau creadigol sy'n llawn dychymyg a fydd yn gwella potensial dysgu bob plentyn.

## Pa gyfleoedd sydd ar gael i chi?

Mae bod yng nghwmni plant ifainc yn hwyl, yn eich ysbrydoli ac yn rhywbeth i'w fwynhau. Fel Cynorthwydd Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin, bydd cyfle i chi ddatblygu sgiliau gofalu, cyfathrebu a chreadigol pwysig gyda'r plant. Bydd cyfle i chi hefyd symud ymlaen a dod yn Arweinydd Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin lle byddwch yn gyfrifol am

arolygu a chefnogi'r staff a'r gwirfoddolwyr.

Bydd disgwyl i chi hefyd gysylltu â rhieni sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr am y cyfraniad y gallent ei wneud ac sy'n cael eu hannog i gymryd rhan yn weithredol.

## Pa gymwysterau fyddwch chi eu hangen?

Ymhob Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin, mae angen i o leiaf hanner y cynorthwywyr fod â chymhwyster Lefel 2, felly mae cael cymwysterau addas yn fantais amlwg.

Os ydych eisiau bod yn Arweinydd Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin yn y pendraw, bydd angen i chi gael cymhwyster Lefel 3 neu'n uwch yn y Blynnyddoedd Cynnar. Bydd angen i chi hefyd fod ag o leiaf dwy flynedd o brofiad mewn gofal plant a meddu ar gymhwyster Cymorth Cyntaf.

Mae angen i Arweinwyr Cylch Meithrin fod yn rhugl yn y Gymraeg hefyd.





# Dewisiadau gyrfaoel

## 3. Gwarchodwyr Plant Cofrestredig

### Beth yw'r swydd yma?

Mae bod yn warchodwr plant cofrestredig yn rhoi'r cyfle i chi weithio yn eich cartref eich hun yn gofalu am blant pobl eraill, o'r babanod lleiaf i blant yn eu harddegau.

Fel gwarchodwr plant, dim ond gofalu am griw bychan o blant y byddwch ar y tro. Mae hyn yn golygu eich bod yn dod i nabod y plant rydych yn gofalu amdanynt yn dda iawn a'ch bod yn chwarae rhan bwysig yn eu bywydau. Byddwch yn helpu plant i ddatblygu gyda llawer o weithgareddau a thrwy gael hwyl gyda nhw wrth iddynt chwarae, a byddwch yn rhannu yn eu llwyddiannau wrth iddyn nhw dyfu.

Ar ddiwrnod arferol efallai y byddwch yn cymryd y plant i'r ysgol; yn mynd i'r parc ar y ffordd adref; yn paentio lluniau gyda'r plant bach tra bo'r babi'n cysgu; yn mwynhau byrbryd ar ôl yr ysgol ac yn darllen stori wrth aros am rieni'r plant.

### Pa gyfleoedd sydd ar gael i chi?

Mae boddhad mewn swydd yn rhywbeth na allwch roi pris arno. Byddwch yn mwynhau magu plant yn eich cartref eich hun ac ennill cyflog llawn amser ar yr un pryd. Mae llawer o warchodwyr plant yn rhieni/gofalwyr i'w plant ifainc eu hunain hefyd ac yn edrych ar ôl plant eraill ar yr un pryd. Mae llawer o gefnogaeth a chynghor ar gael i fusnesau sy'n cychwyn ac efallai y bydd cyfle i

chi gael rhywfaint o arian i'ch helpu i sefydlu eich busnes.

### Pa gymwysterau fyddwch chi eu hangen?

Mae'r Cwrs Cyflwyniad i Arferion Gofal Plant (yn y Cartref) wedi'i deilwra ar gyfer pobl sy'n gofalu am blant yn y cartref yn hytrach nag mewn canolfan megis meithrinfa. Bydd angen i chi hefyd ennill tystysgrif cymorth cyntaf sy'n cynnwys cymorth cyntaf i blant a babanod ifainc, a dal i ddiweddarau eich gwybodaeth wedyn, yn ogystal â chwblhau cwrs hylendid bwyd.

Unwaith y byddwch wedi dechrau gweithio fel gwarchodwr plant, bydd cyfle i chi wneud rhagor o hyfforddi; o sesiynau unwaith yn unig ar bynciau fel chwarae anniben, i gymwysterau ffurfiol megis y Diploma mewn Gofal Plant yn y Cartref. Os hoffech ofalu am blant dan wyth oed, bydd angen i chi gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a phrofi eich bod yn cyrraedd y safonau cenedlaethol ar gyfer gwarchod plant. Gallwch hefyd ymuno â'r Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA), sef cymdeithas gwarchod plant broffesiynol. Byddwch yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am faterion pwysig yn ymwneud â gwarchod plant yn ogystal â gostyngiad ym mhrisiau gwaith papur yr NCMA, megis contractau a chofrestri presenoldeb, sy'n gallu helpu i gadw ochr fusnes eich gyrfa newydd yn rhedeg yn esmwyth.

# 4. Clybiau tu allan i oriau ysgol

## Beth yw'r swydd yma?

Pwrpas Clybiau tu Allan i Oriau Ysgol, Clybiau Brecwast a Chlybiau Gwyliau yw cynnig gofal chwarae i blant rhwng 3 a 14 oed. Mae llawer o'r clybiau yma i'w cael yn yr ysgol leol, tra bo eraill mewn Neuaddau Pentref, Canolfannau Cymunedol neu Feithrinfeydd Dydd. Fel Gweithiwr Chwarae yn un o'r clybiau yma, bydd disgwyl i chi helpu'r Gweithiwr Chwarae Uwch i drefnu gweithgareddau sy'n hwyl ar gyfer y plant, yn amrywio o gelf a chreffft a gemau i chwarae corfforol.

Bydd gan lawer o glybiau blant o bob oedran, o blant bach tair oed i bobl ifainc yn eu harddegau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi allu ateb pob math o anghenion. Un funud efallai y byddwch yn helpu rhywun gyda'i waith cartref, ac yna'r funud nesaf byddwch yn helpu plentyn tair oed i adeiladu blociau.

## Pa gyfleoedd sydd ar gael i chi?

Gwaith trefnydd y clwb yw creu amgylchedd anffurfiol, di-straen lle gall plant ymlacio a chael cyfle i chwarae yng nghwmni eu cyfoedion. Mae helpu i greu amgylchedd fel yma a chwarae eich rhan i ddarparu clwb cyfeillgar a diogel sy'n hwyl, yn gallu rhoi boddhad mawr i chi. Mae nifer o'r clybiau yma

i'w cael yng Nghymru, felly mae'n debyg bod digonedd o swyddi ar gael, yn enwedig am fod y sefydliad sy'n gyfrifol am gefnogi Clybiau tu Allan i Oriau Ysgol yng Nghymru – Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs – yn cynnig llawer o gymorth i glybiau newydd.

## Pa gymwysterau fyddwch chi eu hangen?

Mae'n rhaid i Glybiau tu Allan i Oriau Ysgol ddarparu cymhareb staff o 1:8 ar gyfer y clybiau ac mae'n rhaid i'r staff gael cymhwyster Lefel 2 o leiaf. Rhaid i glybiau sydd i blant dan 8 oed gael eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru mewn Gwaith Chwarae. Does dim rhaid i glybiau sydd â phlant rhwng 8 a 14 oed gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Argymhellir bod gennych dystysgrif Cymorth Cyntaf a Hylendid Bwyd a'ch bod wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Os hoffech fod yn Weithiwr Chwarae Uwch ryw ddiwrnod, bydd angen i chi gael cymhwyster Lefel 3 o leiaf mewn Gwaith Chwarae. Rhaid i Glybiau tu Allan i Oriau Ysgol sy'n newydd gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru os ydynt yn agored am fwy na dwy awr y diwrnod.

# Dewisiadau gyrfaol

## 5. Cynorthwydd Dosbarth

Chwe ffordd y gallwch helpu plant i chwarae, dysgu a thyfu

### Beth yw'r swydd yma?

Fel Cynorthwydd Dosbarth, byddwch yn cefnogi'r athro gyda'i waith pob dydd. Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm sy'n cynllunio gweithgareddau dysgu'r plant, yn darparu amgylchedd sy'n eu hysbrydoli ac yn cefnogi'r athro, dan do ac yn yr awyr agored.

Gallai diwrnod arferol gynnwys cymryd rhan mewn sesiynau darllen a rhif, helpu gyda gweithgareddau celf a chrefft a chwarae, a gofalu am blant sy'n ddigalon neu sydd wedi cael damwain. Os ydych wrth eich bodd gyda phlant, byddwch wrth eich bod yn y swydd yma.

### Pa gyfleoedd sydd ar gael i chi?

Mae'r mwyafrif o ysgolion yn cyflogi Cynorthwywyr Dosbarth llawn amser. Mae cyfle i chi weithio mewn ysgol feithrin yn helpu plant o 3 i 5 oed, ysgol fabanod gyda phlant 3 i 7 oed neu mewn Ysgol Gynradd gyda phlant rhwng 3 ac 11 oed.

Mae nifer o ysgolion yn croesawu gwirfoddolwyr hefyd sy'n dod i mewn i ddarparu cymorth ychwanegol un-i-un, megis gyda gwaith darllen a rhif. Gall hyn fod yn ffordd ragorol o ennill profiad gwerthfawr. Mantais fawr arall yw mai dim ond yn ystod tymhorau'r ysgol y byddwch yn gweithio, felly

os ydych yn rhiant/ofalwr bydd gennych swydd sy'n eich rhyddhau ar gyfer gwyliau'r ysgol.

### Pa gymwysterau fyddwch chi eu hangen?

Gallwch ddod yn Gynorthwydd Dosbarth heb unrhyw gymwysterau cydnabyddedig heblaw eich TGAU, yn arbennig os gallwch gynnig digonedd o brofiad o edrych ar ôl plant fel rhiant/gofalwr neu fel gwirfoddolwr, er enghraifft.

Fodd bynnag, unwaith y dechreuwch, mae'n debyg y byddwch yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu ac yn cael eich annog i astudio cymhwyster hyd Lefel 2. Os enillwch gymhwyster Lefel 3 gallech fynd yn eich blaen i fod yn Gynorthwydd Dysgu Lefel Uwch, sy'n caniatáu i chi gymryd rhagor o gyfrifoldeb a hawlio cyflog uwch.

Po fwyaf y dysgwch, y mwy o gyflog a enillwch.



# 6. Gwaith chwarae

## Beth yw'r swydd yma?

Trwy Gymru gyfan, mae prosiectau chwarae ar fynd sy'n rhoi'r rhyddid i blant chwarae yn yr awyr agored mewn amgylchedd diddorol sydd wedi'i lunio i gynnig amrywiaeth mawr o ddewisiadau i blant, lle gall y plentyn greu ac ymestyn ei chwarae ei hun.

Yn anffodus, mae cymdeithas heddiw wedi cyfyngu ar y cyfleoedd i blant gael treulio amser gyda'i gilydd yn yr awyr agored heb oedolion o gwmpas, ond dyma lle mae gwaith chwarae'n gallu gwneud gwahaniaeth.

Eich rôl fydd hyrwyddo chwarae'r plant, gan weithio gyda nhw i greu a rheoli amgylcheddau chwarae lle, drwy eu harchwilio naturiol eu hunain, maent yn dysgu amdanynt eu hunain, am ei gilydd ac am y byd o'u cwmpas. Gallech ddisgwyl helpu plant i dostio malws melys o amgylch y tân, adeiladu gwalau neu balu twll i Tsieina. Efallai y byddwch yn gweithio mewn clybiau ar ôl ysgol, ar gynlluniau chwarae mynediad agored, mewn darpariaeth chwarae symudol, fel ceidwad chwarae mewn mannau cyhoeddus agored, neu unrhyw fan lle gall plant chwarae..

## Pa gyfleoedd sydd ar gael i chi?

Yn ffodus, mae cymdeithas yn dod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd chwarae i helpu plant ifainc i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a dysgu.

Erbyn hyn, mae'n rhan annatod o'r agenda gwleidyddol, ac mae hyn yn agor mwy o gyfleoedd bob dydd i weithio yn y maes diddorol a buddiol hwn.

Mae swyddi gwag yn codi'n rheolaidd i Weithwyr Chwarae ledled Cymru, a bydd digon o gyfle i chi symud ymlaen i safleoedd Gweithiwr Chwarae lefel uwch, ar yr amod eich bod yn ennill y cymwysterau gofynnol.

## Pa gymwysterau fyddwch chi eu hangen?

I fod yn Weithiwr Chwarae, bydd angen i chi feddu ar gymhwyster Lefel 2 neu 3 o leiaf mewn Gwaith Chwarae, bod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth gofal plant a bod â phrofiad blaenorol o weithio gyda phlant. Efallai y bydd angen amrywiaeth o ddysgu ychwanegol arnoch, o Gymorth Cyntaf a Hylendid Bwyd i Dystysgrifau Llif Gadwyn.

Yn ogystal â hyfforddiant ffurfiol, bydd eich sgiliau meddal, megis cyfathrebu, yr un mor bwysig. Byddwch yn gweithio mewn amgylchedd lle mae parch dwy ffordd yn hanfodol a lle bydd angen i chi gefnogi plant yn emosiynol ac yn ymarferol.

Bydd angen i chi fod yn barod i wynebu sialens, gweithio ymhob tywydd a chynnis gofal a thiriondeb.



# Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD)

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn wasanaeth gwybodaeth rhad ac am ddim i'ch helpu i ddod o hyd i'r swydd rydych ei heisiau, a'r hyfforddiant rydych ei angen, er mwyn cael gyrfya wobrwyl ym maes gofal plant.

Beth bynnag yr ydych yn chwilio amdano mewn gyrfya gofal plant, gall eich GGD lleol helpu – dim ots ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am y mathau o swyddi sydd ar gael a chyngor am y swyddi gwag yn eich ardal, neu os ydych yn newydd i ofal plant ac eisiau cyngor am hyfforddiant, neu os ydych yn gweithio gyda phlant yn barod ac eisiau gwella eich sgiliau neu newid swydd.

Gallwch naill ai ffonio neu ymweld â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i siarad gyda phobl fydd wrth eu boddau'n cynnig rhywfaint o gyngor gyrfyaol arbenigol i chi a'ch rhoi ar ben ffordd at yrfa wobrwyl mewn gofal plant.

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i'w gael ymhob awdurdod lleol. Ffoniwch 0300 123 7777 i ganfod yr un sydd agosaf atoch chi. Neu, ewch i'r adran 'Cysylltiadau Defnyddiol' ar wefan [www.ChwaraeDysguTyfuCymru.gov.uk](http://www.ChwaraeDysguTyfuCymru.gov.uk)



\*sef Gwasanaethau Gwybodaeth Plant (GGP) gynt



# Cysylltiadau defnyddiol

## Cyngor Gyrfaol a Busnes

### Cymorth Hyblyg i Fusnes

Mae Cymorth Hyblyg i Fusnes yn mynd i helpu pob busnes yng Nghymru gael gafael ar y cyngor a'r gefnogaeth y maent eu hangen i gychwyn, tyfu a ffynnu mewn economi Cymreig cryf a mentrus. Os ydych mewn busnes yn barod, neu'n bwriadu cychwyn menter, fe wnawn ein gorau i ddod i hyd i becyn cefnogaeth i chi sydd wedi'i deilwra'n arbennig i'ch helpu i gyflawni eich gobeithion am dyfiant eich busnes.

[www.FS4B.Wales.gov.uk](http://www.FS4B.Wales.gov.uk)

03000 6 03000

### Cymdeithas Gyrfa Cymru

Mae hon yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaol yn rhad ac am ddim. Gall cynghorydd gyrfaol drafod llwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth posibl gyda chi.

[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)

0800 100 900

[Mylocalcollege.com](http://Mylocalcollege.com)

[www.mylocalcollege.com](http://www.mylocalcollege.com) yw'r ffordd gyflymaf o ganfod eich Coleg Addysg Bellach lleol. Bydd yn eich helpu i ganfod llawer o wybodaeth am gyrsiau coleg, lle bynnag yr ydych yn byw yng Nghymru.

### Canolfan Byd Gwaith

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sy'n cynnwys swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith, Canolfannau Gwaith a swyddfeydd nawdd cymdeithasol.

[www.direct.gov.uk](http://www.direct.gov.uk)

0845 604 3719 (Saesneg) neu

0845 604 4248 (Cymraeg)

### Credydau Treth

Cysylltiad â'r wefan Credydau Treth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sy'n esbonio credydau treth a chanddi gyfrifiannell i'ch helpu i gyfrifo eich hawliad.

[www.hmrc.gov.uk/menus/credits](http://www.hmrc.gov.uk/menus/credits)

0845 300 3900



# Cyngor am Swyddi

## Cyswllt Cynorthwydd Dosbarth

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'ch Awdurdod Addysg Lleol neu ewch i [www.playlearnrowales.gov.uk](http://www.playlearnrowales.gov.uk)

## Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn hybu ac yn cefnogi clybiau gofal plant tu allan i oriau ysgol o ansawdd sy'n hygyrch a fforddiadwy i blant 3-14 oed. [www.clybiauplantcymru.org](http://www.clybiauplantcymru.org)  
029 2074 1000 (Prif Swyddfa)

## Mudiad Ysgolion Meithrin

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn darparu ac yn cefnogi addysg, gofal a datblygiad plant dan 5 oed ac yn darparu gwybodaeth, adnoddau a chefnogaeth i rieni/gofalwyr a safleoedd blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. [www.mym.co.uk](http://www.mym.co.uk) 01970 639 639

## Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant yn elusen genedlaethol ac yn sefydliad aelodaeth sy'n siarad ar ran gwarchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae NCMA yn hyrwyddo gwarchod plant cofrestredig o ansawdd fel bod modd i blant, teuluoedd a chymunedau elwa o'r gorau mewn gofal plant ac addysg yn y cartref. Mae NCMA yn cynnig gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i aelodau, yn ogystal â gweithio'n uniongyrchol gyda gwarchodwyr plant drwy ei swyddfeydd lleol.

[www.ncma.org.uk](http://www.ncma.org.uk)

0845 880 0044 (Prif Swyddfa)

0845 880 1299 (Swyddfa Ranbarthol Cymru)

## Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) yw'r gymdeithas aelodaeth i feithrinfeydd dydd. Mae'n darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chefnogaeth i feithrinfeydd ledled Cymru.

[www.ndna.org.uk](http://www.ndna.org.uk)

01824 707 823 (Swyddfa Cymru)

0870 774 4244 (Prif Swyddfa)

## Nestor Primecare Services Ltd Cynllun Cymeradwy Gofal Plant yng Nghymru

Mae Cynllun Cymeradwy Gofal Plant (CAS) yn rhestr o ofalwyr cymeradwy sy'n gweithio yng nghartrefi teuluoedd ledled Cymru. Bydd cofrestru i fod yn ofalwr plant yn y cartref yn dangos i bawb sy'n defnyddio eich gwasanaeth bod gennych y cymwysterau a'r hyfforddiant gofal plant addas a thrwy ddefnyddio gofalwr cymeradwy, efallai y bydd cyflogwr yn gallu cael gafael ar gefnogaeth ariannol trwy elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu trwy ofal plant wedi'i gefnogi gan gyflogwyr.

[www.childcareapprovalschemewales.co.uk](http://www.childcareapprovalschemewales.co.uk)

0844 736 0260

## Chwarae Cymru

Mae Chwarae Cymru'n hyrwyddo darpariaeth chwarae o ansawdd da i bob plentyn, gan gefnogi pob agwedd o waith chwarae gyda staff, datblygiad meysydd chwarae, addysg a hyfforddiant gwaith chwarae.

[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk) 029 2048 6050

## Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru

Mae Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru'n darparu gwybodaeth, hyfforddiant, adnoddau a chefnogaeth i rieni/gofalwyr a safleoedd y blynyddoedd cynnar.

[www.walesppa.org](http://www.walesppa.org) 029 2045 1242

# Cymdeithasau Cynorthwyol

## Cam wrth Gam

Mae Cam wrth Gam yn is-gwmni cofrestredig i Mudiad Ysgolion Meithrin ac mae'n cynnig hyfforddiant hyd at Lefelau 2 a 3 trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws Cymru.

[www.mym.co.uk](http://www.mym.co.uk) 01970 639 639

## Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn sicrhau bod safleoedd gofal yn cyrraedd safonau y mae hawl gan blant eu disgwyl. Mae'n rhan weithredol annibynnol o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

[www.aggcc.org.uk](http://www.aggcc.org.uk) [www.cssiw.org.uk](http://www.cssiw.org.uk)  
01443 848 450

## Cyngor Gofal Cymru

Nod hwn yw sicrhau bod plant ac oedolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gallu dibynnu ar weithlu sydd wedi'i hyfforddi'n gywir, sydd â'r cymwysterau priodol ac sydd wedi'i reoleiddio'n effeithiol.

[www.ccwales.org.uk](http://www.ccwales.org.uk)

Swyddfa Caerdydd 029 2022 6257

Swyddfa Llanelwy 01745 586 850

## Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)

Cysylltwch i wneud cais am eich gwiriad CRB.  
[www.crb.gov.uk](http://www.crb.gov.uk) 0870 90 90 844

## Awdurdod Diogelu Annibynnol

I gofrestru cysylltwch â:  
[www.isa.gov.org.uk](http://www.isa.gov.org.uk) 0300 123 1111

## Geiriau Bach

Mae Geiriau Bach yn cynnig cyrsiau sydd wedi'u llunio i weithwyr yn y blynyddoedd cynnar sydd naill ai'n ddi-Gymraeg neu sy'n brin o hyder gyda defnyddio'r ychydig Gymraeg sydd ganddynt.  
[www.drindod.ac.uk/geiriaubach](http://www.drindod.ac.uk/geiriaubach) 01267 676 603

## SkillsActive

Mae SkillsActive yn gweithio ledled Cymru'n arwain datblygiad hyfforddiant ac addysg gwaith chwarae ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc.  
[www.skillsactive.com](http://www.skillsactive.com) 029 2064 4526

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae hon yn cynrychioli'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'r tri Awdurdod Tân, y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r pedwar Awdurdod Heddlu'n aelodau cyswllt.

[www.wlga.gov.uk](http://www.wlga.gov.uk) 029 2046 8600







Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd  
Family Information Services

CMK-22-07-459 19096 Choosing Childcare Booklets 978 0 7504 5572 5